

# Bwletin Cynnydd Ffordd Gyswilt Economaidd Cross Hands Gaeaf 2019

**GRIFFITHS**  
civil engineering and construction

Ers y bwletin diwethaf mae gwaith adeiladu wedi trawsnewid yr ardal a gallwch bellach weld y ffordd newydd o'r ddau gyfeiriad ar y safle. Hyd yn hyn mae'r gwaith wedi cynnwys gosod 2500m o gyrbau, 1200m o systemau draenio a gosod wyth strwythur concrit gan gynnwys tanffordd bocs a chwifer. Mae 40000m<sup>3</sup> o ddeunyddiau wedi'u cloddio ac mae 60000m<sup>3</sup> o ddeunyddiau llenwi wedi'u gosod, sy'n esbonio pam roedd cynifer o lorïau ar hyd y lle y llynedd. Mae 5000m<sup>2</sup> o geotecstilau cryf iawn wedi'u defnyddio i gynnal y ffordd yn yr ardaloedd lle bo'r ddaear yn hynod feddal.

Gweler y cynnydd ym mis Tachwedd 2018 yn y llun isod a'r datblygiadau mwyaf diweddar ym mis Chwefror 2019.



Yn y llun isod mae 'Sally Safesteps', masgot Griffiths ar gyfer iechyd a diogelwch, yn cwrdd â phlant mewn ysgol gynradd leol i esbonio diogelwch ar safleoedd adeiladu a'r ardal gyfagos. Rhoddwyd llyfr dwyieithog i'r plant am Ymwbyddiaeth o Ddiogelwch Safle a luniwyd gan Griffiths i ategu'r fenter ddiogelwch hon. Gall Sally gwrdd ag ystod o grwpiau oedran a gall y sesiynau gael eu teilwra yn unol â'r cwricwlwm. Mae croeso i chi gysylltu â Jane drwy ddefnyddio'r manylion isod i gael rhagor o wybodaeth. Yn Ysgol Gynradd Gors-las, daeth ecolegydd i ymuno â Sally, a esboniodd y mesurau a gymerwyd i reoli cynefinoedd bywyd gwylt ar y safle, sy'n gartref i lawer o anifeiliaid gan gynnwys ystlumod a dwrgwn.




# Neuadd Gymunedol y Gât

Mae'r gwaith o ddatblygu ardal gemau amldeffnydd yn y neuadd uchod wedi symud yn ei flaen gyda chefnogaeth gan dîm safle Griffiths sydd wedi gwneud yr ardal yn wastad y tu cefn i'r neuadd er mwyn paratoi at y cam nesaf. Mae'r Pwyllgor yn parhau i godi arian ac mae ceisiadau am gyllid wedi'u gwneud i gwblhau'r prosiect a fydd yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau hamdden.



# Gweithgarwch yn y Dyfodol

Mae Dŵr Cymru wedi rhoi gwriad ar waith ar Heol Llandeilo a disgwylir iddo bara 11 wythnos a bydd BT yn gwneud gwaith am bedair wythnos arall ar ôl hynny. Oherwydd yr ystod eang o ffactorau sy'n effeithio ar y gwaith ar y safle, nid yw'n bosibl darparu amserlen fwy manwl.



Hoffem glywed eich sylwadau, cysylltwch â ni drwy ein tudalen we: [community.alungriffiths.co.uk](http://community.alungriffiths.co.uk) neu cysylltwch â'n Swyddog Cyswllt Cymunedol, Jane Howells:

0330 0414651\* neu [jane.howells@alungriffiths.co.uk](mailto:jane.howells@alungriffiths.co.uk)

\*Codir tâl am alwadau i'r rhif hwn ar y cyfraddau galwadau cenedlaethol ac fe'u cynhwysir mewn cynlluniau munudau cynhwysol ar gyfer llinellau tir a ffonau symudol.